

LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ffatri High Speed Plastics, Llandygái 1970-2;

Austin Taylors, Bethesda 1972- 1998

Cyfwelai: VN054 Sandra Owen

Dyddiad: 28:07:2014

Cyfwelydd: Shan Robinson ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary at the end of the Welsh text

Cadarnhaodd Sandra ei henw ac mae Hughes oedd hi cyn priodi. Ei dyddiad geni yw 28 Chwefror 1955.

Ei chefnidir: Cafodd ei geni yn Foel Ogwen, Llanllechid a dyna sut cafodd yr enw Sandra Llan. Roedd ei thad yn *engineer* yn Trawsfynydd, Wylfa, wedyn yn Chwarel Penrhyn. Roedd ei mam yn gweini yn Gwesty Douglas, yn Bethesda. Ganwyd 5 o genod i'r teulu, Norma yw'r hynaf, wedyn hi, wedyn Gillian, wedyn Anna a Sharon yw'r fengaf. Doedd ei mam ddim yn gweithio pan gafon nhw'u geni. Roedd Norma 10 mlynedd yn hynach na hi ond cafodd ei mam 4 plentyn wedyn.

Aeth Sandra i ysgol gynradd Llanllechid ac yna Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda. Gadawodd yr ysgol yn 15 oed. **'Toeddan ni, adag hynny, ddim yn ca'l, wel odd 'na ddewis i fynd i ga'l 11+ ond os na doedd yr arian gynnoch chi, oeddach chi jyst yn gorfod gadal yn ysgol a mynd i weithio.'**

I ddweud y gwir yn onest fyddai hi ddim wedi hoffi aros ymlaen yn yr ysgol. Doedd hi erioed wedi licio'r ysgol. Dim ond un pwnc roedd hi'n ei licio yn yr ysgol – sef Maths.

3.02

Roedd hi'n gweithio rhan amser tra roedd hi'n yr ysgol ers pan oedd hi'n dair ar ddeg tan bymtheg yn post, Rachub yn helpu 'serfio' a llenwi silffoedd. **Ar ôl gadael yr ysgol aeth i weithio i ffatri High Speed Plastics yn Llandygái yn gwneud *sun visors*, a doliau a *watering cans*.**

Roedd ei thad yn gweithio yno ar y pryd. Y munud y gwnaeth hi adael yr ysgol roedd '**yn rhaid i mi fynd i chwilio am waith.**' Roedd e'i mam a'i thad yn dweud '**Rhaid i ti weithio.**' Yna clywodd ei thad bod swyddi'n mynd yn High Speed Plastics ac felly triodd am waith yno a chafodd waith yn syth. Roedd hi wrth ei bodd yna.

Doedd dim llawer o gynnig gwaith arall – yr unig ffatri arall oedd Ferranti's ym Mangor ond doedd dim cynnig yr adeg hynny.

Bu'n gweithio yn High Speed Plastics am ddwy flynedd. Yna cafodd gyfweiliad am waith yn Austin Taylor's ym Methesda. Roedd ei thad wedi gorfod mynd ar waith shift yn High Speed Plastics a doedd dim bysys iddi felly i gyrraedd yno erbyn wyth y bore. Ond gallai gerdded i Austin Taylors ym Methesda.

O fewn blwyddyn iddi adael yr ysgol roedd Gillian ei chwaer yn gadael hefyd ac roedd swyddi'n dod i fyny yn High SP ac roedd ei chyfnither Lliwen wedi ymuno â nhw hefyd – ryw bythefnos dair wythnos ar ei hôl hi. Flwyddyn ar ôl Gillian daeth Anna yna atyn nhw.

Fe gafodd hi gyfweiliad yn y ddwy ffatri. '**Nervous ofnadwy at y pryd, gan toedd neb yn gwybod be oedd cyfweiliad mewn ffor.'**

6.27

Ei gwaith pan ddechreuodd yn HSP oedd gwneud *sun visors* ar y mashîn, rhoi'r fframia i mewn a'r shîtiau plastig drostyn nhw, a'r adeg hynny '**roedd pawb ar darged. Ac roedd un hogan ar y mashîn a'r llall yn gweini tu ôl iddi hi. Ond mi oedd targedi uchaf yna ac ar y pryd mi oedd eich cyflog chi'n dibynnu'n union ar faint o'r *sun visors* yma oeddach chi'n neud. A wedyn mi oeddau ni'n mynd ffwl pelt er mwyn cael cyflog reit dda i ddod adra ar ddiwadd yr wsnos. Hefyd os oeddach chi ddim yn hitio'ch targed, oeddach chi'n gorfod mynd o flaen y *management* i gael 'ch cosbi.**

Beth oedd y cosb 'ma'n ei gynnwys?

Oedd y cosb yn cynnwys *warning* am bo chi ddim wedi hitio'ch targed y tro cynta. Oeddach chi'n cael wythnos wedyn i hitio'r targed ac os oeddach chi ddim yn hitio'r targed, mi oeddach chi'n cael eich galw nôl a wedyn cael yr ail *warning*. Ac mewn wythnos wedyn os oeddach chi'n methu hitio'ch targed, oeddach chi'n cael trydydd *warning*, ond honno oedd y *warning* ddwytha oeddach chi'n ga'l. Wedyn oeddach chi'n colli'ch gwaith.

Oedd y targeda 'ma'n anodd eu cyrradd?

Oedd, ofnadwy, gan fod y dyn, beth oeddau nhw'n alw'n *time and motion man*, wastad yn rhoi targedi'n uchaf oherwydd doeddau nhw ddim isho gneud o'n rhy hawdd, gan bod 'n cyflog ni'n dibynnu ar be oeddau ni'n medru droi allan.

8.17

Roedd yr un math o beth yn digwydd yn Austin Taylor. Roedden nhw ar dargeddi yn fan'no hefyd. Ac roedd pob ffatri yn gweithio i'r un rheolau '**Diwedd y gân oedd doeddau nhw ddim isho talu lot o bres i chi. Ond os oeddach chi'n ddigon sydyn i fedru neud y targed mi oedd modd cael beth oeddau nhw'n alw'n *bonus*. Rhywbeth dros y targed, roedd hwnnw'n fonus i'r paced pae.'**

Mae Sandra yn meddwl bod '**statws isal i rywun oedd yn gweithio mewn ffatri yn 'n meddwl i. Ond mi ddaeth hi i'r adag, dwi'n cofio pobol oedd yn meddwl eu bod nhw'n well na pobol oedd yn gweithio mewn ffatri yn colli'u swyddi'u hun, a landio fyny yn yr un cwch â ni. Ond oedd y ffatri yn ddigon da iddyn nhw adag hynny.'**

Roedd hi'n 17 oed yn dechrau gweithio yn Austin Taylor. Mae'n cofio ei diwrnod cyntaf yno – roedd chwech ohonyn nhw'n dechrau yr un diwrnod a dim clem beth oedden nhw'n mynd i wneud. Ar ôl cyrraedd landiodd hi yn y mashîn siop '**a rhyw anfarth o fashîn fawr. Mi oedd golwg y mashîn yn ddigon ar wneud neb redag allan oddi yna. Ond mi oedd 'na ddynion yn gweithio yn y mashîn siop, ac yn dysgu ni. A fi oedd yr unig un, geithon ni'n gwahanu i gyd i wahanol adranna yn y ffatri. Ymhen dau, dri dirwnod on i 'di dod yn real boi ar y mashîn ac on i'n ddigon hapus. Ond yn amal iawn, os oeddach chi'n gneud yn dda ar un math – mewn un math o adran yn y ffatri oeddach chi'n ca'l 'ch symud i adran arall i brofi *point*, i drïo i chi neud y targedi.'**

Doedd y gwaith ddim y math o waith roedd hi wedi'i wneud cyn hynny – troi sgrïws ac ar *lathes*. '**Roedd o'n waith reit fudur a rhyw hen hogla o'r stwff oedd yn dod o'r mashîn.'** Daeth i arfer wrth i amser fynd yn ei flaen ac yn teimlo ei bod eisiau mynd i wahanol adrannau i gael dysgu lot mwy. A bu hi'n gweithio ym mhob un adran yno.

Roedd y ffatri yn cynhyrchu lot o waith i British Telecom. *Electronics* oedd o i gyd. '**Ac wedyn mi odd y gwaith reit ddiddorol, oherwydd mi oedd yno gymaint o wahanol fathau o waith a gwahanol gwmni oeddau ni'n gwneud gwaith iddyn nhw. Roedd yr amrywiaeth o waith yn lot gwell na oedd o yn HSP.'**

12.21

Roedd 'na fanteision o symud o un adran i'r llall. '**Roeddach chi'n gweithio'ch hun i fyny ac yn cael *leading hand* oedd ychydig bach mwy o bres i ga'l am hynny. Ond hefyd roedd gwahanol adranna oeddach chi'n medru adaptio yn well i rai matha o waith na fasach chi mewn adranna erill.**

Mae'n credu bod o leia 100 o ferched yn gweithio yno. Ac roedd dynion hefyd. Yn y blynyddoedd cyntaf roedd gwahaniaeth rhwng gwaith y dynion a'r merchaid '**ond erbyn ddôth Sex Equality allan, oeddau ni'n gorfod mynd, ac mi nes i fynd i weithio i'r sheet metal, i'r spray shop, i'r mashîn siop – i bob un adran a gorfod gneud a gweithio wrth ochor dynion, lle roedd y merched yn gorfod gneud 'run peth â'r dynion.**

Roedd 250 yn gweithio yno i gyd. Newidiodd y canrannau dynion, menywod oherwydd bod Austin Taylor wedi cymryd dwy ffatri arall ymlaen yn Llandygái a phenderfynu bod, lle bo nhw'n prynu peth o'r stwff i mewn, cynhyrchu hwnnw'u hunan. Felly yn Llandygái roedd dwy ffatri – un yn *moulding shop* lle roedden nhw'n gwneud y *mouldings* i gyd ac wedyn pasio nhw drosodd i ffatri drws nesa i Unit 4 – sef Unit 2, ac wedyn roedd genod yn fan'no yn '*pick and place*' roedden nhw'n ei alw, efo printed *circuit boards*, ac wrth fildio'r peth i gyd wrth ei gilydd yn fan'no.

15.01

Roedd *training* i gael ond roedd yn dibynnu'n union ar y math o waith. Mi roedd rhai o'r pethau roedden nhw'n ei wneud yn gallu bod yn ofnadwy o *monotonous* ac mi roedd y *wiring section* ohono fo yn reit gymhleth – roedd yn rhaid gweithio i ddrawings. Ond unwaith roeddech chi wedi darllen y *drawings*, oeddech chi'n jyst yn cario ymlaen a dysgu a wedyn y dasg oedd codi'r spîd i fyny i ennill yr arian. Roedd hyfforddiant yn y ffatri ei hun, bydden nhw'n cael eu rhoi ar dair wythnos o draining ar agweddau gwahanol e.e. **weirio bocsi teliffon mawr sy'n cael ei ddefnyddio heddiw ar ochr lôn i gysylltu'r ffôn i gyd i fyny. Roedd o leia mil o weirys yn mynd i mewn iddyn nhw a'r rheiny o liwiau gwahanol. A byddai arbenigwr yn eu profi nhw ar ol iddyn nhw eu weirio nhw. 'Ac os fasa 'na ffasiwn beth a bo chi wedi weirio nhw'n rong, mi roedd 'na gosb am hynny.'** – *warning* ac wedi tair *warning* basech chi'n colli'ch gwaith.

Roedd yna famau â phlant ifainc yn gweithio yn ffatri Bethesda. Roedden nhw'n gwneud y *twilight shift*. Roedd hi'n dechrau gweithio am wyth y bore, a gorffen hanner awr wedi pedwar, ac roedd shifft y mamau'n dechrau o hanner awr wedi pump tan hanner awr wedi naw – bob nos o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ar un adeg roedd 60 o ferched wedi priodi yn gweithio ar y *twilight shift*. Doedd neb yn meddwl bod y ffaith fod merched priod â phlant yn gweithio yn syniad od o gwbl. Roedd y genod eraill yn gwerthfawrogi fod y merched priod â phlant yn cael cynnig gwaith.

Doedd dim dosbarthiadau nos yn cael eu cynnig gan y ffatri.

Ei thâl – yn High Speed Plastics - **£7 yr wythnos 'ac mae hynny'n golygu eich bod chi wedi hitio'ch targed.**' Ond ambell wythnos os oedd y mashîns yn torri lawr neu rywbeth, roedd o'n amharu arnoch chi'n gwneud eich targed. **Ac wedyn roeddech chi'n gorfod llenwi timesheet i esbonio pam nad oedd y targed wedi cael ei hitio, neu faint o weithiau roedd y mashîn wedi torri lawr. Os oeddech chi'n gallu gwneud dros y targed – gallai ddod adre â £10 yr wythnos.**

‘Oedd pawb yn cymharu cyfloga ar ddydd Iau pan oeddau ni’n cael tâl.’

19.20

Gwario’r tâl?: Roedd hi’n gorfod talu am ei chadw adra, a doedd dim llawer o ddim byd ar ôl. Efallai digon am un noson allan. A prynu dillad efo rhywbeth oedd ar ôl.

Felly oeddach chi’n rhannu’ch cyflog efo’ch teulu mewn ffordd?

Oeddau ni’n gorfod gwneud.

O safbwynt cael *perks* neu helpu’u hunain: Yn HSP roedd *security* ar y giat a bron bob nos oeddau ni’n mynd allan wedi gorffan gweithio, mi oeddau ni’n cael ‘n stopio a mi oedd y *security* yn sbïo mewn i’n bagia ni. ... Ond mi oeddau ni’n gallu prynu petha fatha dolia cyn Dolig am bris llai Dyna’r unig beth roedden nhw’n medru ‘i gael.

Undeb Llafur? Oedd – *Transport and General Workers’ Union*. Roedd hi yn aelod ac roedd y rhan fwyaf o’r gweithwyr yn aelodau o’r undeb, oherwydd y rhan fwyaf o’r amser mi fyddai y *management* yn trio rhoi pwysau arnoch chi i wneud mwy o waith . ‘A mynd yn ôl at y dynion oedd yn gwneud y *time and motion* ac yn teimio’r job, oedd reiny erioed wedi gwneud yr *actual job* ‘u hunan ond roedd hi’n hawdd iddyn nhw weithio allan yn eu penna faint oeddau nhw’n meddwl oeddach chi’n medru gwneud. Ond os oedd y targed rhy uchaf mi oedd gynnoch chi *shop steward*, oeddech chi’n mynd ato fo neu hi i ofyn caniatâd i’r gwaith gael ei ail-teimio.’

21.44

Streiciau yn ei chyfnod? Oedd – a bu hi’n cymryd rhan ynddyn nhw. ‘Bob tro roedd ‘na streic roedd o am yr arian neu am gyflog. ... Gan bod pawb yn aelod o’r undeb, - doedd ‘na ddim llawar ond mi roedd ‘na rai oedd yn erbyn streic, ac yn mynd i fewn er bod ni’n picetio y tu allan. Oeddau nhw’n dal i fynd i fewn i weithio – ond toedd bywyd rheiny oedd wedi mynd i fewn i weithio ddim yn dda ar ôl i bawb arall fynd i fewn yn ôl, gan bod ‘na ddim siarad a ballu a rheiny oedd wedi aros allan ac wedi colli’r arian yn cau gweithio efo’r rheiny oedd ‘di mynd i fewn ar adeg y streic’ Roedd ambell streic wedi mynd ymlaen am hir.

Doedd y gweithwyr ddim yn cael eu trin yn deg achos doedd y cyflog ddim yn mynd i fyny ddim lawar. Wedyn roedden nhw’n clywed am ffatrïoedd eraill wedi cael £5 yn ychwanegol, lle oedd Austin Taylor neu HSP yn cynnig punt yr wsnos iddyn nhw. Roedd yr Undeb yn cynrychioli pob un ffatri yn yr ardal, roedd y *shop steward* yn dweud wrthyn nhw faint roedd Ferranti’s wedi ei gael ac y dylen nhw gwffio am yr un faint.

Fu Sandra ddim yn swyddog gyda’r undeb. Byddai cyfarfod undeb bob mis ac wedyn roedd pobl oedd yn gweithio ar y llawr yn *shop steward* ac os oedd cwynion roedden nhw’n mynd atyn nhw. Roedd y *shop stewards* yn cael eu dewis gan brif ddyn yr undebau. Ar ol cyflwyno cwyn i’r *shop steward* byddai e/hi yn cysylltu â’r prif ddyn yn yr Undeb. Roedd gan y rhain

bêwer oherwydd os oedd y cwynion yn mynd ymlaen at y *Personel Officer* ac yna'n methu cytuno wedyn roedd hi'n bryd ffonio neu gael gafael yn y prif ddyn yn yr Undeb. Felly os byddai e'n dod i lawr a chwrrd â'r Personel, naw gwaith allan o ddeg mi fyddai e'n cael atab roedden nhw eisiau ei glywed.

25.23

Sut berthynas oedd rhwng y gweithwyr a'r rheolwyr? Roedd rhai yn iawn a rhai ddim yn iawn. Roedd rhai o'r swyddogion yn trio cael mwy o waith allan ohonoch chi am lai o bres **'ac yn sefyll tu nôl i chi ac yn gwylio – os oeddach chi'n codi'ch pen oeddach chi'n cael row, ond wedyn oeddan ni'n mynd at *shop steward* os oeddan ni'n meddwl bod rhywun yn cael ei pigo arno fo mwy na neb arall 'ylly.**

Mewn blynyddoedd fe ddaeth Sandra yn *supervisor* ei hun, ond cyn hynny doedd hi ddim yn deall faint o dan bwysau oedd y *supervisors* gan y *managing directors*. Ar ddiwedd y diwrnod roedd ganddyn nhwythau darged hefyd.

Iwniform? Oedd, yn HSP – roedd pawb yn mynd mewn oferôl oherwydd roedden nhw'n gweithio efo plastig ac oel a phethau felly. Eich oferol eich hun. Roedd pawb yn prynu o'r un lle – siop yn gwerthu oferols i ferchaid fynd i ffatri. Yr un fath yn Austin Taylor. Ond os oeddech chi'n dod yn swyddog roeddech chi'n cael eich oferol. **Lliw oferols y swyddogion oedd *navy blue* fel eu bod nhw'n dangos allan i bawb arall yn wahanol. Ar y pryd rhyw 5 swllt oedd pris oferol.**

Roedd y gwaith yn gallu bod yn beryglus. Doedd dim *Health and Safety* yn y blynyddoedd cyntaf ond yna newid. **Mae'n cofio rhywrai yn cael anaf yn Austin Taylor – dwy waith. Un ferch yn gweithio wrth ei hochor hi a ddim wedi clymu ei gwallt yn ôl ac mi roddodd ei phen i lawr ac fe aeth ei gwallt hi i mewn i'r mashîn a rhwygo'i gwallt hi allan i gyd. Ac un arall oedd yn gweithio shift nos, efo mashîns yn gwneud *mouldings plastic* ac mi roedd y mashîn yn ofnadwy o boeth. A chwythodd y mashîn fyny yn wynab y ddynas yma, a bu hi'n bur wael a'i gwynab hi wedi'i anafu'n ofnadwy.**

Canlyniad hyn - pwy bynnag oedd yn gweithio shift nos roedd un ar y shift yn cael ei hyfforddi mewn cymorth cyntaf. Gyda'r ddamwian ffonwyd am ambiwlans a bu'r ddynes honno mewn ysbyty yn Lerpwl am rai misoedd. Ac roedd iawndal i gael oherwydd doedd dim bai arni hi am beth oedd wedi digwydd.

29.45

Ar shifftiau dydd roedd nyrs llawn amser yn y gwaith. Neu fel arall dim ond un o'r gweithwyr shift yn cael ei hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

Cyfleusterau?: Yn HSP roedd cantîn mawr lle roedden nhw'n cael mynd bob amser brêc i brynu bwyd a diod ac amser cinio – **roedden nhw'n medru prynu cinio tri chwrs am geinioga bob dydd.** Roedd y toiledau yn berffaith ac mi roedd yna stafell, gan nad oedd neb

yn cael smocio ar y llawr, **roedd ‘Smoke Room’** a dyna lle bydden nhw’n mynd i gyfarfod i gael paned o goffi a sigarét os oeddech chi’n smocio.

Yn Austin Taylors roedd cantîn yn fan’no lle bydden nhw’n mynd i brynu pethau ond dim unlle i fedru cwciannu bwyd. **Ond mi roedd y cwmni yn gadael i un person ordro *fish and chips* neu *sandwiches* neu rywbeth** a chai’r rheiny eu delifrio bob amser cinio. Bydden nhw’n bwyta’r rhain yn y cantîn. Roedd toilet i ferched a thoiled i ddynion yno. Roedd chwech ciwbicl yn nhoiled y merched ac felly hefyd i doiled y dynion.

Cerddoriaeth wrth weithio?: Dim yn HSP ond yn Austin Taylors - oedd. **Roedd derbynfa yno ac roedden nhw’n cael mynd adeg hynny ag LPs neu EPs efo nhw. Ac roedd y *receptionist* yn chwarae’r record i chi. Y ffefrynnau oedd y Beatles, Elvis Presley, Searchers, Hollies ...**

Swnllyd? : Roedd HSP yn fwy swnllyd na Austin Taylors. **‘Doedden ni ddim yn ca’l siarad, doeddan ni ddim i fod siarad felly doedd hynna ddim yn broblem. Os oeddach chi’n ca’l ‘ch dal yn wastio amsar ac yn siarad ar ddiwadd yr wythnos mi roedd y cyflog yn llai.’**

Os oeddach chi’n gweithio mewn lle swnllyd fel *sheet metal* roeddech chi’n cael *ear defenders* wrth weithio ar rai o’r peiriannau yno.

33.49

Sut oedd y merchaid yn trin y dynion ac yn enwedig y bechgyn ifanc oedd yn dod i fewn i weithio yna? Oedd ‘na lot o dynnu coes?’

Oedd ‘na dynnu coes ofnadwy. Ac oeddan ni’n gneud petha digon drwg i’r hogia ifanc ac mi oeddan ninna’n cael hi ‘run fath gan y dynion oedd wedi bod yna o’n blaena ni os oeddan ninna’n newydd. Roeddan ni’n cael ein gyrru am *long stand*, a mynd i ofyn am *sky hooks*, a sefyll yna am awr wedyn a neb yn deud na gwneud dim byd wrthan ni. Oedd ‘na lawar o dynnu coes bob dydd a dyna sut oedd yr hwyl a pawb mor hapus yn gweithio efo’i gilydd. Dim yn amal iawn oedd neb yn ffraeo. Oedd hi’n hwyl o wyth o’r gloch ...

Oedd ‘na peth o’r hwyl ‘ma o ryw natur rhywiol – gweld bod merchaid a dynion yn gweithio efo’i gilydd?’

Ew oedd, bob dydd! Toedd ‘na’m diwrnod yn pasio nad oedd rhyw yn dod i fewn i’r stori. Dyna sut fath o le oedd ffatri i weithio ac oedd rhaid i chi ymuno i mewn efo’r hwyl â pawb, ne fel arall doeddach chi ddim yn bart o’r llawr.

Yn HSP mi oedd y lle mor boeth yn yr haf a’r mashîns mowldio i gyd yn mynd, mi oedd y genod yn dueddol o wisgo *mini skirts* – a mi oeddan nhw YN *mini skirts*, a wedyn trio gneud gymint o bres ag a fedran ni, a wedyn anghofio beth oedd gynnan ni amdanan ni erbyn deg o’r gloch, ac ella plygu lawr i balet i roid y *sun visors* i fewn, ac wedyn troi rownd a gweld tua dwsin o ddynion yn sefyll tu ‘nôl i chi ac yn sywleddoli wedyn be

oeddach chi wedi neud ac yn meddwl dwywaith am roi sgert mor gwta amdanoch wedyn.

Os doeddach chi ddim yn ymuno i mewn, doeddach chi ddim i fod yn y ffatri yn gweithio. Oedd ‘na fwy yn tynnu coes nag oedd ‘na ddim yn tynnu coes a wedyn roedd rhaid iddyn nhw ffitio i fewn efo pawb neu bod ar ben ‘u hunan.

36.40

O safbwynt gwŷr y merched ffatri doedden nhw ddim yn gwybod hanner yr amser beth oedd yn mynd ymlaen.

Oeddan nhw’n gefnogol o ochor helpu efo gwaith tŷ ac yn y blaen?

Na, dwi ddim yn meddwl, nag oedd, nag oedd. Doedd ‘na ddim sôn bod ‘na ddyn yn gneud gwaith tŷ yn yr adag hynna. Roedd y ddynas yn mynd adra ac wedyn yn gneud y gwaith tŷ.

Aeth HSP ac Austin Taylors yn ofnadwy o fawr, ac roedd y targedi roedd hi’n gorfod eu gwneud ar y llawr yn cyfateb I’r targedi roedd y cwmnïau mawr .. Ac weithiau os oedd y mashîns wedi torri ‘doeddan ni ddim yn medru hitio’r targed ac mi roedd ‘na beth oedd nhw’n alw yn *Penalty Clause* ac wedyn gorfod gweithio *overtime*. ‘Y rhan fwyaf o amser roedden nhw’n gorfod gweithio bore dydd Sadwrn tan hanner dydd, yna aeth hi o fore dydd Sadwrn tan bedwar, ac hefyd dydd Sul o wyth tan bedwar.’ Felly roedd hi’n gweithio saith diwrnod yn fwy amal nag oedden nhw ddim. Shifft wyth awr a 56 awr yr wythnos.

Doedd dim shifftiau o gwbwl yn HSP i ferchaid – dim ond mewn un adran y mowlding siop roedd ‘na chwech tan ddau a dau tan ddeg ond dim ond y dynion oedd yn gneud y shifft yna. Yna *maintenance*, lle roedd ei thad yn gweithio, roedd hwnnw o ddeg tan chwech, i roi cyfle iddyn nhw fedru gweithio ar y mashîns yn ystod y nos yn barod iddyn nhw yn y bore.

Ond yn Austin Taylo’rs, bu hi’n codi am bedwar o’r gloch y bore i gerdded i Bethesda i ddechrau shifft chwech o’r gloch. Ond doedd hi ddim yn darfod am ddau o’r gloch oherwydd y *Penalty Shift* a’r gwaith yn gorfod bod yn barod erbyn diwedd y mis.

‘Doedd o’r byd mi weithio o chwech y bora tan chwech y nos a mynd adra chwech y nos am frêc a dod yn ôl hannar nos a gneud shifft nos o hannar nos tan chwech y bore.’

Roedd yn sylweddoli os nad oedden nhw’n cynhyrchu’r gwaith i gwmnïau fel British Telecom ar ddiwedd y mis bod cymaint o gwmnïau eraill a fyddai wedi gallu gwneud y gwaith yn eu lle – bydden nhw’n colli contracts felly..

40.11

Clocio mewn ac allan bob diwrnod. Roedd rheol efo clocio i mewn – ‘roedd gynnoch chi rif ‘ch hun. Dwi’n cofio un fi yn Austin Taylor’s hyd heddiw – 3359. ... os oeddan ni

funud wedi troi wyth o'r gloch yn clocio fewn, oeddan ni'n colli hanner awr o gyflog.'

Roedden nhw'n cael egwyl o 9.50 – 10.00, cinio 12.30 – 1.00; egwyl 3.00-3.10. Os oeddech chi'n gweithio dros yr amser o hanner awr wedi pedwar, roeddech chi'n cael deg munud 4.30 – 4.40 cyn dechrau *overtime*.

Gwyliau gyda thâl?: Oedden. Gwyliau Banc gyda thâl a phythefnos yr un ddwy wythnos yn yr haf – olaf Gorffennaf a chyntaf Awst. Roedd y ffatriis drwy'r wlad yn cau ar yr un adeg.

Doedden nhw ddim yn mynd i nunlle ar eu gwyliau ond diwrnod yma ac acw. Doedd pobl ddim yn gallu fforddio mynd i ffwrdd ar wyliau adeg hynny. Yn Austin Taylor, daeth rheol allan, bod ganddyn nhw *floating dates* – 5 mewn blwyddyn, a chaent eu cymryd pryd fynnen nhw. Os oedden nhw wedi gweithio dros Wyl Banc – Pasg ... fe gaent dâl am hwnnw a diwrnod yn ei le. Caent gario y rhain drosodd a'u defnyddio fel *floating days*. Ond roedd yn rhaid eu bwcio bythefnos ymlaen llaw.

Teithio i'r gwaith?: Cerdded i Austin Taylor ond i HSP byddai criw ohonyn nhw o Rachub yn mynd, a byddai o leia un o'r genod efo car ac felly talu tuag at betrol iddi hi. Os oedden nhw'n dechrau am wyth yn Austin Taylor gallen nhw ddal bys Chwarel Penrhyn, **ac os yn darfod am hanner awr wedi pedwar byddai hogia Chwarel Penrhyn yn gwneud i'r bys ddisgwyl y tu allan i'r ffatri iddyn nhw gael darfod. Oherwydd roedd yna 'hwter a doedd fiw i ni symud allan trwy'r drws cyn i'r hwter fynd.'** Ond os oedden nhw'n gweithio shiffiau - chwech o'r gloch bore roedden nhw'n cychwyn cerdded am bedwar o'r gloch bore.

Roedd y daith o Llanllechid i Fethesda lle roedd y ffatri tua milltir a thrichwarter. Os oedd hi'n darfod deg y nos roedd yn rhaid cerdded adre – doedd dim bysys adeg hynna o'r nos.

44.35

Gweithgareddau cymdeithasol?: Dim cofio dim byd felly. Roedden nhw'n cael parti Dolig gan HSP ac Austin Taylor ond dim gan y cwmni – yn cyfrannu dim byd. Un o'r genod ar y llawr fyddai'n trefnu cinio Dolig a phawb yn talu o syth ar ol Dolig erbyn Dolig wedyn, fel 'clwb distaw' (?) fel bod ganddyn nhw arian i fynd ar y bys. Gan amla i'r Hydro yn Llandudno y bydden nhw'n mynd. Doedd dim clwb cymdeithasol yn y ffatri.

Yr unig bobl bwysig fyddai'n dod i'r ffatri ar adegau fyddai mam Mr Austin Taylor, hi ddechreuodd y ffatri ym Manchester a symud i Fethesda.

Wnaethoch chi fwynhau gweithio yn y ffatri?

Do'n fawr iawn. ... Byddwn i wrth fy modd yn gwneud y gwaith.

Gadawodd y ffatri yn 1998 oherwydd roedd dwy ffatri oedd gan Austin Taylor yn barod i gau a doedd gwaith neb yn saff. Cafodd hi gyfle i brynu ei busnes ei hun – 'a dyna ddiwadd oes ffatri i fi.'

Roedd hi'n teimlo'n ofnadwy ar y diwrnod roedd hi'n gadael. Heb yn wybod iddi roedden nhw wedi trefnu parti iddi yng Nghlwb Criced Bethesda, y noson honno. Doedd hi ddim yn gwybod y bore hwnnw sut y byddai'n dweud ta-ra wrth bawb felly aeth hi ddim i'r gwaith! Ond tua deg o'r gloch y bore hwnnw daeth enoc ar y drws a chafodd ei dragio i mewn i'r ffatri a chael *farewell* ofnadwy o dda. A parti mawr yn y nos. Ond mae'n dal yn ffrindiau ac mewn cysylltiad â llawer un. Ac mae'n dal i weld rhai o genod HSP.

Ar ol gadael prynodd fusnes dosbarthu cywion ieir trwy siopau bwtsiar trwy ogledd Cymru i gyd.

Wrth edrych yn ôl fyddai hi ddim wedi newid ei bywyd yn y ffatri o gwbl. Mae wedi mwynhau ei gwaith, a mwy na dim byd mwynhaodd wneud cymaint o ffrindiau Nid yw'n difaru dim o'r hyn wnaeth hi, a phetai'n cael ei bywyd drosodd eto '**mae'n siwr y baswn i'n dewis gwaith ffatri.**'

Hyd: 50 munud

English summary

High Speed Plastics, Llandygái 1970-2;

AustinTaylor, Bethesda 1972- 1998

Interviewee: VN054 Sandra Owen

Date: 28:07:2014

Interviewer: Shan Robinson on behalf of Women's Archive of Wales

Sandra was born on 28 February 1955 in Foel Owen, Llanllechid. Her maiden name was Sandra Hughes but she was called Sandra Llan. Her father was an engineer in Trawsfynydd, Wylfa and then in Penrhyn quarry. Sandra was the second of five sisters. Her mother worked in the Douglas Hotel in Bethesda, but this was after the children had been born.

Sandra went to Llanllechid primary school and then on to Dyffryn Ogwen School, Bethesda. She left school at fifteen years old. 'At that time ... if you didn't have any money, you just had to leave school and go to work'. She didn't enjoy school. The only subject she liked was Mathematics.

3.02

She worked part-time in Rachub post office from the age of thirteen helping to serve customer and stocking shelves. After leaving school she went to work in High Speed Plastics in Llandygái making sun visors, dolls and watering cans. Her father worked there at the time. Her parents had told her that she must seek employment as soon as she'd left school and her father had heard that there were vacancies. She got a job there and was very pleased. The only other potential source of employment was Ferranti's in Bangor but they didn't have any jobs available at the time.

She worked in High Speed Plastics for two years. She was then interviewed in Austin Taylor in Bethesda. Her father had gone on to the night shift in HSP and there were no buses to get her to work by eight o'clock in the morning, but she could walk to Austin Taylor's in Bethesda.

Within a year of her leaving school, Sandra's sister, Gillian and her cousin, Lliwen had joined her in HSP. A year after Gillian started, Anna joined them too.

6.27

Her work in HSP was making sun visors on the machine, putting in the frames and the plastic sheets over them. They all had their targets which were high, and the amount of wages depended on the amount of sun visors made. "We worked full pelt in order to get a good wage to take home at the end of the week. Also, if you didn't hit your target you had to go before the management and you were punished."

The punishment was a warning that you hadn't reached your targets. You were then given a week and if you failed again you were called back and were given a second warning. If, after another week, you still hadn't hit your target you had the third and final warning. Then you lost your job.

The time and motion man always made the targets high because the workers' wages were paid according to what they could produce.

8.17

They also had targets in Austin Taylor. 'At the end of the day they didn't want to pay you much money. But if you were fast enough to reach the target you were able to get a bonus. Anything over the target was a bonus for your pay packet.'

Sandra thinks that anyone working in a factory was considered to be of a low status but the time came when the people who looked down on factory workers lost their job and ended up in the same boat. The factory was good enough for them then.

She was seventeen when she started working in Austin Taylor. Six of them started on the same day. She landed up in the machine shop which was a massive place. 'Seeing the machine was enough to make you want to run out of there. But there were men working in the machine shop, and they taught me. And I was the only one, because we were all separated and put in different departments in the factory. Within two or three days I had become an expert on the machine and was happy enough. But quite often, if you did well in one type of department in the factory you were moved to another department.'

The work was new to Sandra (turning screws and on lathes). It was dirty work and fumes came out of the machine. She got used to the job quickly and was happy to go to different departments to learn more.

The factory produced a lot of work for British Telecom – *Electronics*. Sandra found the work interesting because there were such a variety of different jobs.

12.21

As one moved from one department to another and gained promotion, the wages increased. This also made workers more versatile. Sandra thinks there were approx. 100 girls working there – and men also. In her first years working at the factory there was certainly sex discrimination and a definite perception of what Man's work and Woman's work should be. However with sex equality came changes which saw Sandra sent to work in the sheet metal dept. the spray shop and the machine shop, working alongside the men.

There were 250 workers altogether. The ratio of men to women changed because Austin Taylor opened two more factories in Llandygai to manufacture more items. One factory was a *moulding shop* and next door was known as *pick and place*, where the circuit boards were made up.

15.01

Training was provided depending on the type of work. Some jobs could be quite monotonous and the wiring section was very complicated. Once familiar with the task in hand the aim was to increase the speed of work in order to earn more money. Workers would get 3 weeks' training – e.g. how to wire a telephone junction box. There were at least 1,000 different coloured wires to deal with. If you made a mistake you'd get a warning. 3 warnings meant you lost your job.

Some mothers with young children worked at the factory in Bethesda, on the twilight shift. Sandra worked from 8am to 4.30pm and the mothers' shift was 5.30pm to 9.30pm every night from Monday to Friday. At one time 60 married women worked the twilight shift and it wasn't considered odd at all.

There were no evening classes offered at work.

Sandra's pay: £7/week at High Speed Plastics (targets attained). When Sandra exceeded her targets she could earn as much as £10/week.

'Everyone compared their wages on Thursday after we'd been paid.'

19.20

Once Sandra had paid for her keep (at home) there wasn't much money left – maybe enough for a night out and possibly some to spend on clothes.

The workers (at HSP) were afforded few perks. They could buy discounted items before Christmas (such as dolls). There was tight security at the gates, searching workers' bags as they left at the end of a shift.

Sandra and most of her co-workers were members of *The Transport and General Workers' Union*. She felt that management at the factory were always trying to increase work targets. If they felt they were being unfairly pressured into doing more work, workers could approach a shop-steward to apply for a re-assessment.

21.44

Sandra participated in strikes which were always about money/wages. Everyone was in the union so there were never many who opposed a strike. A few continued working while Sandra was part of a picket line outside. Life wasn't easy for those who broke the strike as they were sent to Coventry once work resumed.

Sandra thinks that workers weren't treated fairly as wages never rose much. They'd hear through their shop steward about other factories offering a £5 increase whereas Austin Taylor or HSP were only offering a £1/week rise. The union would use comparisons with other factories like Ferranti's in Bangor to try and persuade the workers to fight for similar pay rises.

There was a monthly union meeting where workers could take their complaints/grievances to the shop stewards. He/she in turn would report to the "main man in the union" – a very powerful figure. If the personnel officer couldn't resolve a complaint, then it was time to phone the "main man", and if he arrived for a meeting, nine times out of ten there would be a favourable outcome for the workers.

25.23

Sandra describes her managers as a mixed bag. Some were good – others not so. Some of the officials tried to make workers work harder for less money. They'd stand over you, and tell you off for raising your head.

In time, Sandra became a supervisor herself. She hadn't realised how much pressure was on supervisors (from the managing directors) to reach targets.

Everyone wore overalls at HSP because of the plastic and oil. We all had to buy them from the same shop. They cost 5 shillings at the time. It was the same at Austin Taylor. But if you became an official you were given a navy blue overall so that you stood out from the other workers.

Work could be dangerous. There was no health and safety as such at first but things changed. Sandra remembers two incidents when workers were injured. A girl working next to Sandra

hadn't tied up her hair and it got caught in the machine and pulled out of her scalp. Another girl was working on the night shift on a plastic moulding machine which exploded. She suffered serious injuries to her face and spent months in hospital in Liverpool. Compensation was paid, and as a result, the company ensured that one worker on the night shift was trained in first aid. On the day shift, there was a full time nurse on duty.

29.45

There was a large canteen at HSP where workers could buy food and drink at break times. They could buy a 3 course lunch every day for pennies. The toilets were immaculate and there was a "smoke room" where people would go for a chat, a coffee and a smoke (as there was no smoking allowed on the factory floor).

There was a canteen at Austin Taylor, but no cooking facilities. Someone would order in fish and chips or sandwiches to be delivered at lunchtime. Sandra remembers there being 6 cubicles each in both the ladies' and gents' toilets.

At Austin Taylor the workforce listened to music while they worked. People would bring LPs in for the receptionist to play. The favourites at the time were the Beatles, Elvis Presley, the Searchers and the Hollies.

HSP was noisier than Austin Taylor. The workers weren't allowed to talk – if they were caught wasting time by talking, their pay was docked.

Ear defenders were provided for those who worked in a noisy atmosphere like that in the sheet metal dept.

33.49

There was much leg-pulling. New workers were often sent on fools' errands to fetch *sky hooks* or to go for *a long stand*.

At HSP it was so very hot in the summer, working in the heat generated by all the moulding machines, that the girls used to wear extremely short miniskirts. By 10 o'clock they'd forget they were so scantily clad and the simple act of bending down to place sun visors on a palette would attract an audience of about a dozen men.

36.40

The girls' husbands had no idea what went on behind the factory gates.

HSP and Austin Taylor expanded substantially and competed with larger companies. To do this their targets increased. Targets that couldn't be met invoked penalty clauses and workers found themselves working overtime. Working until midday on Saturday was stretched to working through until 4pm. Then Sunday 8am to 4pm was added to the schedule. (56 hours/week)

At HSP women didn't work shifts unless they worked in the moulding shop where there were 2 shifts – 6-2 and 2-10 (only men worked the latter). The maintenance shift, when Sandra's

father worked, was 10-6, mending and maintaining the machines overnight ready for the morning shift.

When she worked at Austin Taylor, Sandra got up at 4am, walked to Bethesda and began her shift at 6am. She didn't clock off at 2pm because of the *penalty shift*. Sometimes she worked from 6 to 6, went home and then returned to work at midnight until 6 the following morning to help finish work by the end of the month so as not to lose big contracts (like BT) to competing firms.

40.11

There was a strict regime when clocking on at 8am. One minute late meant being docked half an hour's pay. There was a break at 9.50 – 10.00, lunch at 12.30 – 1.00; another break at 3.00-3.10. Those working overtime had a break between 4.30 – 4.40.

As well as bank holidays, there were two weeks holiday every summer (last week in July and first week of August) when all factories closed down. While Sandra was at Austin Taylor, an additional 5 days (floating days) of holiday were introduced along with days in lieu for working bank holidays.

If she started work at 6am Sandra walked to Austin Taylor unless she was starting at 8, then she caught the Penrhyn quarry bus. Similarly she could return home on the quarry bus if she finished at 4.30. It's 1 ¾ miles from Bethesda to Llanllechid. If Sandra finished work at 10pm she had to walk as there were no buses at that time of night. When she worked at HSP, Sandra was given a lift in a co-worker's car.

44.35

Sandra doesn't remember much in the way of social events organised/provided by either company. There were Christmas parties arranged and paid for by the workers themselves – usually at the Hydro in Llandudno. Everyone paid into a savings “club” throughout the year.

The only VIP Sandra remembers visiting the factory is Mr Austin Taylor's mother who founded the factory in Manchester and then moved it to Bethesda. Yr unig bobl bwysig fyddai'n dod i'r ffatri ar adegau fyddai mam Mr Austin Taylor, hi ddechreuodd y ffatri ym Manchester a symud i Fethesda.

Sandra enjoyed her time working at the factory but she left in 1998 because the 2 Austin Taylor factories were set to close and her job wasn't secure. She had an opportunity to buy a poultry business (supplying chickens to butchers' shops throughout North Wales) – “and that was the end of my factory life.”

Sandra couldn't face saying goodbye to everybody at work so she stayed at home on her last day. But somebody from work called at her home and dragged her into work where she was given a great send-off. There was also a surprise party for her that evening in the local cricket club.

To Sandra, the factory was a place where she made many good friends. She has no regrets, and if she was given her life over again – “.I'd surely choose factory work.”